# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 3

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

## PENNOD 2

Y DRETH SYDD I'W CHODI AR WAREDIADAU TRETHADWY

*Cyfrifo'r dreth sydd i'w chodi*

### 14 Cyfrifo'r dreth sydd i'w chodi ar warediad trethadwy

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i warediad trethadwy deunydd a wneir ar safle tirlenwi awdurdodedig.

(2) Mae swm y dreth sydd i'w godi ar y gwarediad i'w gyfrifo drwy luosi pwysau trethadwy'r deunydd mewn tunelli â'r gyfradd safonol.

(3) Y gyfradd safonol yw'r gyfradd y dunnell a ragnodir at ddibenion is-adran (2) mewn rheoliadau.

(4) Nid yw is-adran (2) yn gymwys i'r gwarediad os yw'r deunydd a waredir—

- (a) yn gyfan gwbl ar ffurf un neu ragor o ddeunyddiau cymwys (gweler adran 15), neu
- (b) yn gymysgedd cymwys o ddeunyddiau (gweler adran 16).

(5) Yn lle hynny, mae swm y dreth sydd i'w godi ar warediad o'r disgrifiad hwnnw i'w gyfrifo drwy luosi pwysau trethadwy'r deunydd mewn tunelli â'r gyfradd is.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Croes Bennawd: Cyfrifo'r dreth sydd i'w chodi. (See end of Document for details)*

(6) Y gyfradd is yw'r gyfradd y dunnell a ragnodir at ddibenion is-adran (5) mewn rheoliadau.

(7) Caiff rheoliadau o dan is-adran (3) neu (6) ragnodi cyfraddau gwahanol ar gyfer disgrifiadau gwahanol o ddeunydd.

(8) Gweler adran 18 am ddarpariaeth ynghylch sut y mae pwysau trethadwy'r deunydd mewn gwarediad trethadwy i'w gyfrifo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 14 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 14(1)(2)(4)(5)(7)(8) mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**I3** A. 14(3)(6) mewn grym ar 18.10.2017 at ddibenion penodedig gan O.S. 2017/955, **ergl. 2(a)**

**I4** A. 14(3)(6) mewn grym ar 1.4.2018 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Croes Bennawd: Cyfrifo'r dreth sydd i'w chodi.